

www.cyngorllanelltyd.cymru

**Cyfarfod Cyngor Cymuned Llanelltyd, Taicynhaeaf a Bontddu gynhaliwyd yn
Neuadd Bentref Llanelltyd
Nos Fawrth, Ionawr 10, 2023 am 7.30 o'r gloch.**

Preseanol: Cynghorwyr: Llinos Rowlands, Llinos Williams, Geraint Rowlands, Elfed ap Gomer ac Eleri Jones. Hefyd Delyth Lloyd Griffiths a Henry M. Edwards.

1. Ymddiheuriadau: Gareth Ellis.

Yn absenoldeb y Cadeirydd, Simon Evans, cadeirwyd y cyfarfod gan Geraint Rowlands.

2. Datgan diddordeb:

Roedd Elfed ap Gomer yn datgan diddordeb ynglŷn ag Eitem 5.i.

3. Cadarnhau cofnodion cyfarfod Tachwedd 8, 2022

Cynigwyd y cofnodion gan Llinos Williams, ac eilwyd gan Geraint Rowlands.

4. Materion yn codi o'r cyfarfod Tachwedd 8, 2022

Eitem 9.ff. Llythyr (11/11/2022) oddi wrth Swyddog Gwasanaeth Etholiad, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod ni chafodd cais am etholiad ac felly gallwn symud ymlaen i gyfethol y sedd wag. Amgáu mae hysbysiad i'w arddangos ar ein hysbysfyrdau ac ar ein gwefan. Roedd yr hysbysiad yn cael ei arddangos ar Tachwedd 14 a rhoddwyd dyddiad Rhagfyr 2, 2022 i roi cyfle i'r cyhoedd ymholi am y sedd wag.

Eitem 9.h. Llythyr (12/12/2022) oddi wrth Swyddog Tim Tacluso Ardal Ni yn rhoi gwybod y gwaith maent wedi ei wneud yn Llanelltyd. Amgáu oedd lluniau yn dangos y gwaith ysgubo.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

Penderfynwyd rhoi gwybod i'r Swyddog roeddem yn canmol y gwaith cafwyd ei wneud.

5. Materion Ariannol

a. Bil (7/11/2022) am £1,382.00 oddi wrth A.M. Ashton am wneud gwaith yn y fynwent. Roedd y gwaith yn golygu torri gwair ym Mehefin, Awst a Hydref, chwistrellu llwybrau a waliau gyda chwynladdwr, a thorri wyneb y gwrych sydd ar ochr y beddi.

Penderfynwyd talu'r bil.

CYNGOR CYMUNED LLANELLYD, TAICYNHAEAF A BONTDDU
COFNODION IONAWR 10, 2023

b. Llythyr (16/11/2022) oddi wrth Llywodraeth Cymru. Swm priodol o dan Adran 137(4)(a) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 – terfyn gwariant adran 137 ar gyfer 2023-24. Maent yn rhoi gwybod gall Cyngorau Cymuned wario ar gyfer blwyddyn ariannol 2023-24 o dan adran 137 (1) a (3) £9.93 fesul etholwr er budd yr ardal.

Bydd yr uchafswm yn $£9.93 \times 386 = £3,832.98$.

c. Llythyr (28/11/2022) oddi wrth Dawns i Bawb. Maent angen cymorth ariannol.

Penderfynwyd trafod y mater mis Chwefror ‘Cais am Nawdd’.

ch. Llythyr (1/12/2022) oddi wrth Ysgol Meithrin Dolgellau. Maent angen cymorth ariannol.

Penderfynwyd trafod y mater mis Chwefror ‘Cais am Nawdd’.

d. Bil (5/12/2022) am £154 oddi wrth Mr J.E. Williams am glirio llwybrau ardal Bontddu.

Penderfynwyd talu'r bil.

dd. Derbyniwyd (7/12/2022) £841.17, ad-daliad oddi wrth Cyngor Gwynedd at gynnal a chadw llwybrau 2022/2023.

e. Llythyr (15/12/2022) oddi wrth Cyllid, Cyngor Gwynedd. Maent angen gwybod ein praesept am 2023 / 2024. Maent angen y wybodaeth erbyn dydd Gwener, Ionawr 27, 2023.

Praesept 2022 /2023 - £7,500.00. Praesept 2021 /2022 - £7,500.00.

Anfonwyd gwybodaeth i'r aelodau yn awgrymu'r praesept.

Penderfynwyd i'r praesept fod yn £7,500.00 fel y llynedd.

f. Derbyniwyd (28/12/2022) £114 oddi wrth I.B. Williams a'i Fab at osod beddfaen ar y diweddwr Colleen Mary Edwards.

ff. Derbyniwyd (28/12/2022) £114 oddi wrth I.B. Williams a'i Fab at osod beddfaen ar y diweddwr Robert Manderson Haw a Kathleen Haw.

g. Bil (28/12/2022) am £500 oddi wrth John Arfon Owen am ail agor bedd at 20/12/2022.

Penderfynwyd talu'r bil.

CYNGOR CYMUNED LLANELLYD, TAICYNHAEAF A BONTDDU
COFNODION IONAWR 10, 2023

h. Llythyr (10/1/2023) oddi wrth Ffederasiwn Ffermwyr Ifanc Meirionnydd. Maent angen cymorth ariannol.

Penderfynwyd trafod y mater mis Chwefror ‘Cais am Nawdd’.

i. Bil (8/1/2023) £211 oddi wrth Elfed ap Gomer am adnewyddu gwefan y Cyngor cyn 1af Mawrth, 2023 i gynnal a chadw'r wefan am flwyddyn arall.

Penderfynwyd talu'r bil.

j. Balans yn y banc ar 29/11/2022: £12,784.69. (29/11/2021: £14,533.46).
Balans yn y banc ar 29/12/2022: £13,691.78. (29/12/2021: £11,933.66)

6. Archwilio

7. Mynwent Llanelltyd

Gweler eitem 5.a.

8. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

a. Cais cynllunio NP5/65/372. Estyniad blaen unllawr yn cynnwys adeiladu wal gerrig ffiniol fer gyda mynedfa giât. 4 Cyscod y Celyn, Llanelltyd.

Penderfynwyd cefnogi'r cais (19/11/2022).

9. Gohebiaeth

a. Llythyr (11/11/2022) oddi wrth LGFR Consultations trwy law Un llais Cymru yn rhoi gwybod mae ymgynghoriadau ar reoliadau drafft yn ymestyn eithriadau premiymau ail gartrefi ac ar ganllawiau. Maent angen sylwadau erbyn 22 Rhagfyr, 2022.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

b. Llythyr (14/11/2022) oddi wrth Un Llais Cymru gyda chopi o ganllawiau ar ‘Bwlio ac Aflonyddu mewn Cynghorau’. Mi ddylai fod yn ddefnyddiol i drin materion sy'n codi mewn sefyllfaoedd o'r fath. Amgáu mae dogfen gyda 20 o dudalennau.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

c. Llythyr (14/11/2022) oddi wrth Gwasanaeth Cyfreithiol, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod am rybudd cau ffordd dros dro ar ffordd Ddi-ddosbarth a adwaenir i Swyn y Nant, Bontddu. Bydd y ffordd ar gau ar 24/11/2022 am ddiwrnod ond nid hwy na 3 diwrnod er mwyn G.T. Williams Ltd adnewyddu gweithgareddau polyn a cheblau diffygiol ar ran Openreach.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

Llofnod:

Dyddiad:

3

CYNGOR CYMUNED LLANELLYD, TAICYNHAEAF A BONTDDU
COFNODION IONAWR 10, 2023

ch. Llythyr (16/11/2022) oddi wrth Rheolwr Gwasanaethau Cefnogi Cymunedau, Cyngor Gwynedd gyda chofnodion gweithdai Sesiwn Ardal NI Dolgellau cymherwyd lle ar 22/9/2022 yn Coleg Meirion.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

d. Llythyr (15/11/2022) oddi wrth Gwasanaeth Cefn Gwlad, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod bod gat cul wedi ei osod ar lwybr rhif 52 yn Hirgwm.

dd. Llythyr (17/11/2022) oddi wrth Un Llais Cymru ynglŷn ag ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar Rheoliadau drafft i ddiwygio Dosbarth 6 o'r eithriadau i breimiau'r dreth cyngor ar gyfer ail gartrefi. Bydd Un Llais Cymru yn ymateb i'r ymgynghoriad ac yn barod i dderbyn ymatebion y cynghorau erbyn 7/12/2022.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

e. Llythyr (18/11/2022) oddi wrth Cyngor Tref Pwllheli yn rhoi gwybod maent yn cynnal Cyfarfod Cyhoeddus i drafod y bwriad i gau canolfannau Ambiwllans Awyr Cymru yng Nghaernarfon a'r Trallwng o blaid adleoli i safle newydd yn Rhuthun. Cynhelir y cyfarfod yn y Neuadd, Ysgol Glan Môr am 7th ar 25/11/2022. Bydd aelodau o Ymddiriedolaeth Elusennol Gwasanaeth Ambiwllans Awyr Cymru yn bresennol a Liz Saville Roberts (AS) a Mabon ap Gwynfor (AS)

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

f. Llythyr (24/11/2022) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod mae Llywodraeth Cymru, trwy Comisiwn Cymunedau Cymraeg, yn ymgynghori sut y gellir cryfhau cymunedau Cymraeg gyda'r bwriad o ddyblu defnydd dyddiol o'r Gymraeg erbyn 2050. Bydd Un Llais Cymru yn ymateb i ymgynghoriad sy'n cael ei wneud a byddent yn ddiolchgar i dderbyn ein hymateb erbyn diwedd dydd Gwener 16 Rhagfyr 2022.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

ff. Llythyr (28/11/2022) oddi wrth Priffyrdd, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod bydd Tim Tacluso Ardal Ni yn gwneud gwaith yn Llanelltyd ym mis Rhagfyr.

g. Ar gais gan Mr Dai Williams, The Vicarage, anfonwyd llythyr (13/12/2023) i Priffyrdd, Cyngor Gwynedd yn gofyn am bin halen ar y ffordd sy'n mynd o'r The Vicarage i Bro Cymmer. Mae angen lleoli'r bin ar y junction lle mae'r hen ffordd / steps yn mynd i'r A470 wrth Tan Dalar.

Derbyniwyd ateb (13/12/2023) yn rhoi gwybod maent yn fodlon rhoi bin halen ond mae angen y Cyngor Cymuned talu am y bin newydd ac mae'r gost tua £400.

Penderfynwyd archebu'r bin halen a'i dalu amdano.

CYNGOR CYMUNED LLANELLYD, TAICYNHAEAF A BONTDDU
COFNODION IONAWR 10, 2023

h. Llythyr (16/12/2022) oddi wrth Un Llais Cymru yn cynwys rhestr o sesiynau hyfforddiant o bell yn Ionawr, Chwefror a Mawrth 2023.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

i. Llythyr (19/12/2022) oddi wrth Priffyrdd, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod am waith bydd yn cael ei wneud mis Ionawr:

Trwsio dau bostyn cyfeirbwyntio a strimio 300m o hyd ar Lwybr 80 yn Taicynhaeaf.

Trwsio camfa a giat i gerddwyr sydd yn y wal garreg ar Llwybr 76, Hirggwm.

j. Llythyr (6/1/2023) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod bydd Cyfarfod Cyffredinol Pwyllgor Meirionnydd am 7.00yh ar ddydd Mercher, Chwefror 15, 2023 gan ddefnyddio Zoom. Siaradwr fydd Liz Saville-Roberts AS. Bydd fwy o wybodaeth ar ddechrau mis Chwefror.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

10. Adroddiad Cynghorydd Gwynedd Mrs Delyth Lloyd Griffiths

a. Llythyr (11/11/2022) oddi wrth Adrian Williams, Priffyrdd yn rhoi gwybod roedd perchennog Pen Nebo wedi plannu coed a gosod cerrig ar ymyl y ffordd i gadw traffig oddi ar yr ymyl. O ganlyniad, rhoddwyd gorfodaeth ar y perchennog i glirio'r cerrig ar sail diogelwch defnyddwyr y ffordd a hefyd tynnu coed oedd yn amharu risg i wal gynnal. I gadw cerbydau trwm o'r wal gosodwyd rhes o 'bollards' ond bu iddynt gael eu difrodi a chafwyd eu hail gosod. Bydd Priffyrdd yn monitro'r sefyllfa dros yr wythnosau nesaf.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

Mae'n debygol bydd rhaid cael cyfarfod ar y safle i gael cytundeb i ddelio â'r broblem.

b. Llythyr (14/11/2022) oddi wrth Pwyllgor Gwasanaeth Ambiwlans Brys ynglŷn â lleoliad Ambiwlans Awyr Cymru yn Caernarfon a'r Trallwng. Bydd penderfyniad yn cael ei wneud yn 2023 wedi cwblhau ymgynghoriad cyhoeddus.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

c. Llythyr (28/11/2022) i Priffyrdd, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod iddynt mae angen tacluso (torri gwrychoedd) yn Llanelltyd. Mae'r gwrychoedd bob ochr i'r ffordd i'r dde wrth ddod i mewn i'r pentref angen sylw, h.y. i fyny at le mae y ffordd yn dod i ben (dead end). Mae hyn oherwydd cais gan etholwr yn Llanelltyd.

ch. Llythyr (5/12/2022) yn rhoi gwybod am gwestiwn rhoddwyd i Cyngor Gwynedd ar gadwyn fwyd gyda'r bwriad o brynu fwy o gynnyrch lleol.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

CYNGOR CYMUNED LLANELLYD, TAICYNHAEAF A BONTDDU
COFNODION IONAWR 10, 2023

d. Gwybodaeth cafodd cynghorwyr Cyngor Gwynedd ar Diweddariad gan Bwyllgor Gwasanaethau Ambiwylans Brys ar y Gwasanaeth Adalw a Throsglwyddo Meddygol Brys (EMRTS Cymru) oddi wrth Mabon Ap Gwynfor AS.

Gweler Nodyn Briffio 4 ynghlwm, sy'n ddiweddariad ar y sefyllfa sy'n ymwneud â'r gwaith ar y Gwasanaeth Adalw a Throsglwyddo Meddygol Brys (EMRTS Cymru) mewn partneriaeth ag Elusen Ambiwylans Awyr Cymru.

Cafodd y cynnig cychwynnol ei ystyried gan y Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwylans Brys (PGAB) ar 8 Tachwedd a gofynnodd yr Aelodau am fwy o graffu cyn y gellid cymryd camau pellach. Rhoddwyd adroddiad diweddar i EASC ar 6 Rhagfyr 2022. Cytunwyd ar bedwar maes ar gyfer craffu:

1. Darparu EMRTS i boblogaeth Cymru (cwmpas poblogaeth)
2. Cerbydau Ymateb Cyflym (RRV)(Sut orau i ddefnyddio'r cerbydau hyn)
3. Defnydd (defnyddio'r hyn sydd gennym mewn ffordd effeithiol)

4. Angen heb ei ddiwallu (mwy o gleifion i dderbyn y gwasanaeth gofal critigol)
Bydd ymgysylltu ffurfiol â'r cyhoedd yn cadarnhau sut mae'r GATMB, yn llywio datblygiad ffiniau neu derfynau i'w defnyddio ac opsiynau a fydd wedyn yn cael eu modelu. Bydd hyn yn sicrhau bod manteision neu anfanteision pob opsiwn yn cael eu nodi'n glir a'u pwyso a'u mesur fel rhan o broses agored, dryloyw a chadarn.

Roedd y diweddariad diwethaf yn egluro bod Tîm PGAB yn gweithio gydag arbenigwyr mewn Byrddau Iechyd a Chynghorau Iechyd Cymuned i ddatblygu deunyddiau ymgysylltu a phan gytunir arnynt bydd y broses ymgysylltu ffurfiol yn dechrau.

Mae gwaith yn parhau ar y deunyddiau ymgysylltu (a fydd yn cynnwys llinellau amser) ond yn ddealladwy mae ein tîm hefyd wedi bod yn brysur iawn yn cefnogi ymateb y GIG i'r pwysau presennol sy'n wynebu'r system gofal brys a'n cleifion. Gydag ymddiheuriadau mae hyn yn golygu nad yw'r deunyddiau'n barod eto ac felly ni fyddwn yn cychwyn ar y broses ffurfiol ar 9 Ionawr 2023 (wythnos nesaf). Rydym yn gobeithio rhannu gwybodaeth cyn gynted â phosibl, ac yn awr yn disgwyl i'r rhain fod ar gael erbyn dechrau mis Chwefror ac rydym yn gwerthfawrogi eich dealltwriaeth yn ystod y cyfnod hwn.

Bydd yn darparu diweddariadau pellach maes o law.

e. Mae'r Heddlu yn parhau i chwilio am y person cwmpodd i'r afon yn Ganllwyd.

f. Bydd arwyddion newydd yn cael eu gosod ar ffordd A496 wrth Bryn Melyn.

g. Mae cynllun yn cael ei wneud gan y Parc i rwystro campervans (a phethau tebyg) parcio ar y ffordd ochr deheuol o'r hen bont Llanelltyd. Rhai o'r syniadau yw symud y 'bollards' at fynedfa lle parcio, a gosod rhwystr yn erbyn cerbyd i fynd heibio.

CYNGOR CYMUNED LLANELLYD, TAICYNHAEAF A BONTDDU
COFNODION IONAWR 10, 2023

h. Roedd Mr Pike, Bontddu ddim yn fodlon gyda'r peiriant oedd wedi ei osod ar gyfer ei dŷ i fesur cyflymder traffic ar ffordd A496. Mi fydd yr Heddlu yn gwylio cyflymder y traffic.

Llythyr (21/21/2022) derbyniwyd gan Andrew Gregson, Uwch Beiriannydd Traffic a Chefn Gwlad, Cyngor Gwynedd. Adolygiad cyflymder: A496, Bryn y Mor, Bontddu.

Lleoliad	X	Y	Cyfyngiadau Cyflymder (mya)	Cyflymder 85ed	Cyflymder Canolig	Rhif Canolig Traffig Dyddiol	Cyfanswm Cerbydau yn y Cyfnod	Dyddiadau yr Arolwg
Bryn y Mor - A496, Bontddu	267399	318905	30	34.8	30	2044	14344	05/12/2022- 11/12/2022

Y cam nesaf fydd gyrru'r wybodaeth ymlaen i 'Ganbwyll' er mwyn iddynt gymryd camau priodol i ymdrin â'r mater. Yn yr achlysur hwn bydd yr Uned Ganbwyll yn adolygu'r data i benderfynu os yw'r lleoliad yn cyrraedd hicyn gorfodaeth.

Llythyr ateb (5/1/2023) oddi wrth yr Heddlu. I can confirm A496 Bontddu is a live site, we will task a Casualty Reduction Officer to attend and enforce.

Anfonwyd y llythyrau i'r aelodau.

i. Mae Banc Bwyd Bermo yn anfon bwyd i'r ardal.

j. Mae cynllun Cyngor Tref Dolgellau wedi bod yn llwyddianus i bobl gael lle cynnes a phaned yn ystod y gaeaf yn y Llyfrgell Rydd. Mae gan y Clwb Rygbi'r un cynllun.

11. Materion Brys

a. Mae angen rhoi gwybod i Priffyrdd, Cyngor Gwynedd mae angen ysgubo ffyrdd Cwm Mynach (ar ôl y glaw (a'r hydref)), yn ogystal â chlririo'r cwterydd ac agor y ffosydd. Roedd y ffordd fel afon yn 1/1/2023, ac mae'r dail a'r gro drosti ym mhob man.

Rhodddwyd gwybod y neges i Priffyrdd ar 3/1/2023.

Derbyniwyd galwad ffôn (9/1/2023) oddi wrth Mrs Muriel Williams, Taicynhaef yn holi pwy i gysylltu i glirio'r llanast sydd ar y ffordd. Rhodddwyd rhif ffôn Peiriannydd Ardal Meirionnydd iddi gysylltu.

b. Mae angen cael gwybod beth yw'r diweddaraf ynglŷn â'r matresi yn Hengwrt. Does dim wedi ei wneud yno.

Daeth y mater i fynnu yn cyfarfod Hydref 2019, a derbyniwyd llythyr (9/10/2019) oddi wrth Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn rhoi gwybod maent yn ymwybodol o'r thipio / storio gwastraff carpedi yn Hengwrt. Maent wedi rhoi gwybod hyn i Gyfoeth Naturiol Cymru oherwydd mae'r gwastraff ar raddfa fawr. Maent yn disgwyl ateb oddi wrth Gyfoeth Naturiol Cymru.

CYNGOR CYMUNED LLANELLYD, TAICYNHAEAF A BONTDDU
COFNODION IONAWR 10, 2023

Yn Cofnodion Mawrth 2020 cafwyd wybod roedd eitem ar BBC Breakfast yn sôn am gangiau yn dympio bêls o wastraff yn anghyfreithiol mewn gwahanol lefydd fel Hengwrt. Roedd eitem hefyd ar y pwnc yn Llygad Y Dydd. Hefyd, mae traean o'r gwastraff yn Hengwrt wedi ei roi yno'n gyfreithiol. Mater i Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri ydy delio gyda gweddill y gwastraff. Cafodd y cyfarfod i gadarnhau'r Cofnodion ei ganslo oherwydd rheolau Coronafeirws.

Penderfynwyd gwneud ymoliadau ag Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri a Cyfoeth Naturiol Cymru.
